

Monmouthshire Select Committee Minutes

Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg Neuadd y Sir Brynbuga Dydd Llun, 27ain Chwefror, 2023, 10.00 am

Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir Alistair Neill (Cadeirydd)

Cynghorydd Sir: Jill Bond, Ian Chandler,
Tony Kear, Peter Strong, Laura Wright,
Sue Riley, Phil Murphy, Louise Brown,
Rachel Garrick

Swyddogion yn Bresennol

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Paul Matthews, Prif Weithredwr
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant
Matt Phillips, Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Ruth Donovan, Assistant Head of Finance
Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu,
BywydMynwy
Stacey Jones, Uwch Gyfrifydd
Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid
Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid

APOLOGIES: Dim

1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw sylwadau wedi eu derbyn.

3. Craffu cyn penderfynu ar ymgynghoriad Premiymau'r Dreth Gyngor: Eiddo Gwag hirdymor ac Ail Gartrefi - Ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno premiymau treth gyngor o 1 Ebrill 2024 (adroddiad i ddilyn).

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Rachel Garrick yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Ruth Donovan a Matthew Gatehouse.

Her:

A ellir ailystyried y rhestr o eithriadau, yn enwedig o ran cartrefi gwag sy'n adeiladau rhestredig, a hynny o ystyried y gall gwaith adnewyddu gymryd amser maith?

Rhaid dilyn deddfwriaeth a chanllawiau'r Dreth Gyngor, sy'n benodol am lwfans 12 mis ar gyfer eiddo sy'n wag cyn y gellir codi premiwm. Nid yw eiddo sydd wedi'i eithrio rhag y dreth gyngor

yn atebol am y premiwm. Gellir caniatáu eithriad 6 mis os oes angen adnewyddiadau sylweddol, a gellir ymestyn hynny i 12 mis. Gall yr eithriadau hefyd fod yn berthnasol i eiddo sydd ar werth ac ati – mae rhestr o gategoriâu eraill ar gyfer eithriadau.

A yw'n gywir bod y rhai sydd eisoes ar y gronfa ddata fel perchnogion ail gartrefi wedi pleidleisio dros gynnydd?

Roedd yn ymgynghoriad agored, cyhoeddus. Mae 400 eiddo ar y gronfa ddata sydd wedi'u nodi fel eiddo gwag, a 190 wedi'u cofrestru fel ail gartrefi. Ysgrifenasom at y perchnogion eiddo hynny yn dweud ein bod yn ystyried premiwm ac yn gofyn am eu barn yn yr ymgynghoriad; fe wnaethom ei agor i'r cyhoedd ehangach wedyn. Felly mae gennym gymysgedd o ymatebion gan y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol a'r cyhoedd yn ehangach.

A oedd yr ymgynghoriad ond ar gael ar-lein?

Cysylltodd rhai heb fynediad â ni ac aethom â hwy drwy'r ymgynghoriad yn y canolfannau/canolfannau cyswllt.

Ond pe na bai rhywun ar-lein, ni fyddent yn ymwybodol ohono yn y lle cyntaf?

Roedd datganiad i'r wasg hefyd, ac felly nid oedd ar y wefan yn unig, ac fe wnaethom annog pobl i gysylltu â ni os na allent lenwi'r ffurflen ar-lein.

Beth yw perthnasedd C.11-15 yma – onid ydynt yn tresmasu ar breifatrwydd? A ydynt yn generig pan anfonir holiadur?

Mae'n rhaid gofyn rhai cwestiynau mewn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus, megis yr effaith bosibl ar y Gymraeg, er enghraifft, ac mae eraill yn arferion da i'w gofyn wrth ystyried newidiadau polisi, yn enwedig os oes effaith anghymesur posibl ar un grŵp penodol, er efallai nad oes eu hangen yn gyfreithiol. Ac mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol yn unig.

A yw cydweithwyr mewn awdurdodau eraill sydd â chyfraddau ail gartrefi uchel wedi canfod bod modd osgoi'r ddeddfwriaeth?

Na, nid ydym wedi gweld na chlywed am unrhyw un. Cyn hyn, roedd yn gyfreithlon i eiddo treth gyngor symud i mewn i ardrethi busnes o gwmpas y trothwyon ar gyfer hunanarlwyo, a oedd yn golygu gostyngiad yn sylfaen y dreth gyngor - nododd awdurdodau eraill newid sylweddol yn hyn o beth, o ganlyniad i'r premiymau. Mae'r rheolau ynghylch hunanarlwyo wedi newid ers hynny: mae'n rhaid i fusnesau fod ar gael i'w gosod yn fasnachol am o leiaf 252 diwrnod y flwyddyn (140 yn flaenorol), a rhaid eu gosod yn y 12 mis blaenorol am 182 diwrnod (70 diwrnod yn flaenorol). Rydym yn rhagweld y bydd nifer o eiddo yn dod yn ôl i restr y dreth gyngor, o ganlyniad i'r newid hwn i'r trothwy.

Beth sy'n cyfrif fel cartref 'adfeiliedig', a pha botensial sydd i berchennog eiddo gwag hirdymor ddatgan ei fod yn adfail er mwyn osgoi'r dreth gyngor? Sut ydym ni'n asesu hynny?

Byddai angen i ni gyfeirio at y tîm Refeniw am ateb pendant. Er mwyn i unrhyw eiddo gael ei dynnu oddi ar restr treth gyngor, byddai'n rhaid iddo gael ei adolygu a'i asesu gan asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n hysbysu'r Awdurdod Lleol o fand y dreth gyngor neu werth ardrethol eiddo – nhw sy'n penderfynu a yw wedi'i raddio ai peidio. Os yw'r adeilad yn adfail, byddai'n rhaid iddo fodloni meini prawf er mwyn cael ei dynnu oddi ar restr e.e. pe nai bai modd byw yno o gwbl. Felly, byddai angen i'r perchennog gysylltu â'r Swyddfa Brisio a gofyn i'r eiddo gael ei dynnu oddi ar y rhestr.

A oes unrhyw botensial i gael graddfa symudol o ran deiliadaeth ail gartrefi?

Byddai hynny'n anodd ei weinyddu - sut y byddwn yn gwybod bod yr eiddo yn cael ei ddefnyddio bob penwythnos, er enghraifft. Ni fyddem yn gallu cynnwys hynny yn ein prosesau. Rydym yn glir mai'r bwriad yw adolygu'r effaith ar yr economi leol yn y flwyddyn i ddod.

Mae pryderon am yr holiadur: nid yw'r nodweddion gwarchoddedig a restrir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Nid oedd pawb yn cael dweud beth oedd y premiwm – dim ond y rhai a ddywedodd 'ie' bod premiwm yn cael eu holi beth ddylai'r ganran fod, ac nid oedd opsiwn '0%'.

Mae'r holiadur yn glir iawn ac yn syml: os yw unigolyn wedi datgan nad yw'n cytuno â lefel y dreth gyngor, mae wedi mynegi ffafriaeth o 0%. Ni ofynnir iddynt ailadrodd hynny oherwydd nid oes angen iddynt wneud hynny.

Os oes gan berson oedrannus gartref mewn un ardal efallai y bydd angen iddo gael lle bach gyda chymorth warden yn rhywle arall, er mwyn bod yn agos at berthnasau i gael cymorth gyda'i ofal. Efallai ei fod yn gwerthu ei dŷ arall neu ei fod mewn eiddo gyda chymorth warden sy'n anodd ei werthu oherwydd y taliadau gwasanaeth mawr. Oni ddylai fod eithriadau o dan yr amgylchiadau hynny? Beth am brofiant?

Pan ddyfernir premiwm, mae'n dibynnu a oes eithriad treth gyngor ar yr eiddo eisoes, neu a yw yn un o'r 7 dosbarth y manylir arnynt yn y canllawiau. Yn achos rhywun sy'n mynd i gartref preswyl, er enghraifft, os yw'n drefniant parhaol, yna mae eithriad ar waith ar gyfer ei eiddo, o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae eiddo wedi'i eithrio am 6 mis os yw'n wag oherwydd profiant, a gellir ei eithrio am hyd at 1 flwyddyn oherwydd ei fod yn gysylltiedig â'r cyfyngiad gwerthu. O dan y 7 dosbarth, os yw'r eiddo'n cael ei farchnata i'w werthu, mae wedi'i eithrio am flwyddyn. Felly, mae lle yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu ar gyfer rhai o'r amgylchiadau hyn.

Os yw eiddo wedi'i restru a gofynnir am newid cyn iddo gael ei osod, gall cynllunio gymryd blwyddyn – onid oes perygl i rai o'r gweithredoedd hyn gael eu heffeithio gan ganlyniadau anfwriadol? Onid oes angen trydydd categori dewisol ar gyfer yr argymhellion? Beth os nad yw rhywbeth yn cael ei gwmpasu gan yr amserlenni a ganiateir gan y rhestr eithriadau?

Mae'r categori yn ôl disgrisiwn yn rhywbeth y bydd angen i ni ei ystyried wrth i ni fynd i mewn i'r cyfnod o 12 mis cyn y bydd codi tâl ar breswylwyr yn dechrau (gan dybio ei fod wedi'i gymeradwyo nawr), a bydd angen creu seilwaith cyfan sy'n ymdrin â sut y caiff hyn ei weinyddu. Gwyddom gan Gynghorau eraill sydd eisoes yn gweithredu premiwm fod ganddynt lawer o ymholiadau, cwestiynau ac apeliadau gan drigolion – mae angen i ni fod yn barod ar gyfer hynny a dysgu gan Gynghorau eraill am y mathau hyn o ymholiadau. Yna bydd canllawiau'n cael eu llunio i'r tîm Refeniw eu dilyn, ynghyd â phroses apelio. Felly nid oes gennym yr holl atebion eto ond byddwn yn ceisio datblygu deunydd yn y misoedd nesaf. Byddwn yn ystyried pa lefel o ddisgrisiwn y gellir ei defnyddio.

A yw'n bosibl cael eithriadau cefn wrth gefn?

Ydy, gall eiddo gael eithriadau cefn wrth gefn, am resymau gwahanol.

Os cwblheir yr IIA yn gyntaf – dylai hysbysu'r holiadur – felly efallai y byddai cwestiynau ynghylch statws/incwm cyflogedig yn fwy perthnasol. Hefyd, os yw'r cwestiynau eraill yn ddewisol, a bod niferoedd gwahanol o ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn, a ydyn nhw'n ddefnyddiol?

Mae'n bwysig iawn ein bod yn ymdrechu i gwblhau pob un IIA cyn gynted â phosibl mewn unrhyw broses - po gynharaf y gwnawn hynny, y mwyaf tebygol yw hi y gallwn ddefnyddio'r ymatebion i lywio'r cynnig polisi.

Arferai fod Panel Apeliadau – beth ddigwyddodd i hynny?

Nid ydym yn ymwybodol o hyn yn digwydd ar hyn o bryd, nac wedi digwydd yn y 7 mlynedd diwethaf. Efallai y bydd angen i ni ei roi ar waith, o ystyried lefel yr ymholiadau unwaith y bydd y premiwm wedi'i gyflwyno.

Roedd yr ymgynghoriad yn glir mewn gwirionedd bod opsiwn i ddweud na ddylai fod cynnydd, h.y. 0%. O ran cyfle cyfartal, mae'n bwysig casglu'r data hwnnw, gan ein bod am sicrhau bod holiaduron yn cyrraedd trawstoriad da. Roedd y data cyfle cyfartal yn dangos bod y nifer fwyaf o ymatebwyr dros 65 oed, ac felly mewn gwirionedd roedd yr henoed wedi'u cynnwys.

Ydy, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r wybodaeth cyfle cyfartal i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob rhan o'n cymuned.

Mae adran 12, paragraff 16 o'r canllawiau cyfreithiol yn nodi na fydd annedd sy'n cael ei feddiannu am un neu fwy o gyfnodau o 6 wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn yn newid statws adeilad gwag hirdymor. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, pe bai unigolyn mewn eiddo am 12 cyfnod o 4 wythnos, byddai'r adeilad yn dal i gael ei ystyried yn wag hirdymor? Beth yw ymarferoldeb hynny?

Gwelir hyn yn arbennig mewn ardrethi busnes: mae dodrefn, er enghraifft, yn cael eu symud i le 'gwag' am gyfnod o amser, i ddenu eithriad rhag talu ardrethi busnes, a gwelir hyn hefyd gyda'r Dreth Gyngor. Mae hwn yn bwynt penodol y mae'r canllawiau yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

Ond beth am feddiannaeth wirioneddol yr annedd gan unigolyn?

Mae'n ganllaw penodol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhywun, er enghraifft, yn symud dodrefnyn i geisio osgoi'r taliadau.

A oes amcangyfrif o'r eithriadau a fyddai'n berthnasol i'r 190 o ail gartrefi? Pa fath o gostau fyddai, neu a fu eisoes, fel y gallem weld beth fyddai'r sefyllfa ariannol net o ganlyniad i'r polisi hwn?

Mae ffigurau wedi'u cyfrif ar sail nifer yr ail gartrefi (190) ac eiddo gwag (400) a restrir ar ein cronfa ddata. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod am yr adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnom i roi hyn ar waith. Bydd angen i ni brynu modiwl ychwanegol ar y system a ddefnyddir ar gyfer referniw a budd-daliadau. Yn anecdotaidd, mae Cynghorau eraill wedi gorfod defnyddio adnoddau ychwanegol o fewn eu timau referniw i ymdrin â nifer yr ohebiaeth ac apeliadau. Bydd angen i ni wneud gwaith modelu ariannol manwl yn nes at yr amser i lywio cynllun ariannol 24/25, pan fydd gennym ddarlun cliriach o union nifer yr eiddo a faint o adnoddau sydd eu hangen i gyflawni hyn yn ddiogel.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae meysydd ar gyfer gweithgarwch dilynol yn cynnwys eithriadau sy'n ymddangos nad ydynt wedi'u nodi ar hyn o bryd, a'r potensial felly ar gyfer dosbarth dewisol ar gyfer eithriadau, ac i apeliadau gael eu hegluro fel rhan o'r cynllun. Hefyd, os oes diffyg yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru gallai ddad-ddirwyn y polisi pe bai pobl yn ei weld, gan arwain at adolygiadau barnwrol, gwastraffu amser ac arian – felly dylid ystyried Adran 12A, paragraff 16, gan ei bod yn ymddangos yn ddiffygiol. Croesewir ymateb y tu allan i'r cyfarfod – **CAM GWEITHREDU**

4. Mis 9 Adroddiad Budget Outturn - Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer craffu misol.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Rachel Garrick a Jonathan Davies yr adroddiad ac ateb cwestiynau'r aelodau gyda Peter Davies, Will Mclean, Frances O'Brien ac Ian Saunders.

Cyn y cwestiynau nododd y Cadeirydd y deallir bod y darlun yn un cymhleth o ran cronfeydd wrth gefn a darlun sylfaenol y Cyngor ond bydd trigolion eisiau gwybod beth yw'r sefyllfa

ariannol a nodir yn yr adroddiad, gan y bydd o bosib erbyn diwedd yr adroddiad yn anghynaliadwy yn ariannol. Byddai'n rhesymol bod eisiau deall yr effaith ar y gynrychiolaeth o'n safbwynt yn cael ei wella gan y tynnu i lawr ychwanegol o gronfeydd wrth gefn, na all fynd ymlaen am byth, ac effaith grantiau na chânt byth eu hailadrodd.

Her:

Dylai aelodau'r Pwyllgor nodi ei fod yn anarferol darllen rhai pethau yn yr adroddiad e.e. 3.19, sy'n cyfeirio at yr anhawster posibl wrth leihau costau a "mesurau mwy eithafol". Mae 3.2.0 hefyd yn anarferol iawn wrth ddatgan y bydd mesurau yn "hollbwysig i sicrhau bod y Cyngor yn diweddu'r flwyddyn mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy". Mae 3.2.1 yn nodi na fydd rhai arbedion "o reidrwydd yn dod ag unrhyw fudd pellach i gyllideb y blynyddoedd i ddod" – a ydym yn dileu materion unwaith ac am byth a allai arwain at ddirywiad gwasanaethau?

Mae'r geiriad hwn yn amlygu bod angen cael cydbwysedd rhwng ein gallu i roi mesurau caled iawn ar waith yn ystod y flwyddyn, tra'n rhoi cynlluniau at ei gilydd ar gyfer y flwyddyn nesaf ar yr un pryd. Mae'r pecyn o fesurau a gyflwynwyd yn y flwyddyn gyfredol wedi ymateb i sefyllfa sydd wedi datblygu'n gyflym iawn. Mae'r pwynt ynghylch cynaliadwyedd ariannol yn ymwneud â sicrhau ein bod yn rhoi'r lefel angenrheidiol o reoli costau ar waith yn awr; mae'r dirywiad pellach ym Mis 9 yn siomedig. Mae angen inni sicrhau ein bod yn cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw ddirywiad pellach, gan ein rhoi ar lwybr cynaliadwy at waith y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng newyddion cadarnhaol ar y naill law a negyddol ar y llaw arall yn bryder, yn enwedig o ran mynd at lefel hollbwysig o gronfeydd wrth gefn. A oes angen i ni edrych yn fanylach ar sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn, a'r effaith ar gyllidebu yn y dyfodol?

Mae'r defnydd cynyddol o gronfeydd wrth gefn o ganlyniad i archwilio'r bwriad i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i dalu am rai o'r risgiau ychwanegol hynny. Mae wedi dod yn amlwg nad yw pob un o'r meysydd yn gymwys o dan y gyfarwydddeb cyfalafu ac, felly, rydym yn gorfod troi at gronfeydd wrth gefn ar y darn penodol hwnnw. O ran defnydd, rydym ni, fel gweinyddiaeth, yn pryderu am lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael: nid yw'r Cyngor wedi eu hailgyflenwi dros y blynyddoedd diwethaf i unrhyw lefel canfyddadwy, ar wahân i'r adeg pan oedd gennym ni arian ychwanegol ar gyfer Covid. Mae gennym y drydedd lefel isaf o gronfeydd wrth gefn yng Nghymru. Felly, rydym hefyd yn rhoi sylw eithafol i ble mae ein cronfeydd wrth gefn, a beth y gellir ei wneud am hynny.

Ond o ran defnyddio cronfeydd wrth gefn i roi cymhorthdal i'n gwariant refeniw o £6m, £1m yn fwy na'r disgwyl, mae hyn ar wahân i'r gyfarwydddeb derbyniadau cyfalaf?

Mae Tabl 3 yn glir: mae'n gyfuniad o eitemau sy'n mynd tuag at wneud y cynnydd net o £1.06m. Mae diffyg o ran gallu cymhwyso'r holl gostau yr oeddem yn gobeithio eu gwneud ym Mis 6 i gyfalafu – mae'n gostwng tua. £500k – ac mae'r diffyg o fewn y cynigion a godwyd gan wasanaethau ym Mis 6. Ceir paragraffau yn ddiweddarach ynglŷn â lefelau wrth gefn, o ran defnydd ychwanegol; nodwch y papurau sy'n mynd i'r Cabinet a'r Cyngor yr wythnos hon am gadernid lefelau ein cronfeydd wrth gefn, a'u defnydd ar gyfer y flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf.

Beth fyddai'r sefyllfa pe na bai'r arian wrth gefn yn cael ei dynnu i lawr, a/neu pe na bai grant untro wedi ei gyflwyno? Beth yw'r darlun sylfaenol, er mwyn i ni wybod beth yw sefyllfa go iawn y Cyngor?

Mae'n anodd dad-ddewis, gan ein bod wedi cael nifer o grantiau untro ac incwm ychwanegol drwy gydol y flwyddyn. Y gwir amdani yw bod ein defnydd o gronfeydd refeniw wrth gefn yn cynyddu £1.06m. I bob pwrpas, yr eitem honno, ynghyd â'r gyfarwydddeb cyfalafu, yw'r ffordd yr ydym yn talu'r costau annisgwyl sydd wedi codi. Cymerir y pwynt, serch hynny. I gael crynodeb syml o sut y mae wedi effeithio ar ein sefyllfa alldro, mae'r ateb yn Nhabl 3: bu cynnydd yn y defnydd o gronfeydd refeniw wrth gefn i dalu'r costau ychwanegol sydd wedi dod drwedd rhwng Mis 6 a Mis 9, wedi'u gwrthbwysu gan gyllid ychwanegol ond nid i'r graddau llawn. Mae'r cronfeydd wrth gefn ar lefel is nag y byddem ei eisiau, ac felly mae angen i'n disgyblaeth gyllidebol fod yn gadarn iawn – ni allwn ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn yn y tymor canolig i fechnïo'r cyngor ar gyfer gorwariant nas rhagwelwyd.

Mae'r broblem yn cael ei gyrru'n bennaf gan gynnydd mewn costau gofal cymdeithasol. Beth yw'r gymhariaeth â Chynghorau eraill? A ydynt yn wynebu pwysau costau tebyg yn y maes hwn?

Roeddem hefyd yn bryderus ynghylch y cynnydd yng nghostau lleoliadau pobl ifanc ac yn chwilfrydig ynghylch sut yr ydym yn perfformio o gymharu â Chynghorau eraill, gyda phryder ein bod yn uwch na'r cyfartaledd yn y maes hwnnw. Mae ein Prif Swyddog Ariannol wrthi'n gweithio ar yr ymchwil a'r gwaith casglu gwybodaeth hwnnw – y pennawd o hynny yw ein bod tua'r cyfartaledd yn ein gwariant yn y maes hwn. Mae'n effeithio ar bob Cyngor ar hyn o bryd: mae Wrecsam, er enghraifft, wedi gweld cynnydd o 100% dros y 5 mlynedd diwethaf yng nghost lleoliadau plant, tra bod ein cynnydd ni wedi bod tua 50%.

O ran y "peryl y bydd 9 ysgol arall yn mynd i ddiffyg ariannol", beth yw ein hymagwedd a beth fyddai'r effaith ar addysg plant?

Rydym wedi symud o 8 i 9 ysgol mewn diffyg ariannol. Mae dau ar lefel isel iawn (llai na £10k), ac felly, rydym yn disgwyl y byddant yn gwella'n gyflym. Mae un ysgol wedi bod â diffyg sylweddol ers amser, ond gan weithio gydag Aelodau'r Cabinet rydym yn bwriadu darparu cymorth ychwanegol i hwyluso ei hadferiad dros gyfnod estynedig o amser. Mae lefel yr ysgolion eraill yn un y gellir ei hadennill dros y 2 flynedd nesaf. Byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau bod ganddynt gynllun priodol ar waith. Cafodd y balansau sy'n dod i mewn i'r flwyddyn eu chwyddo'n artiffisial oherwydd grantiau sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig i gefnogi dysgwyr yn eu hadferiad ar ôl y pandemig, a bu'n rhaid gwario'r arian hwnnw ar bethau penodol iawn o fewn yr amserlen. Roedd effaith hefyd bod angen i'r ysgolion gwrdd â'r codiad cyflog o 2% yn ystod y flwyddyn, sef £1m arall. O ran yr effaith ar ddysgwyr, rydym yn bwriadu gweithio gydag ysgolion fel nad oes unrhyw rai – bod yr ysgolion yn adennill yn ofalus ac yn ystyried dros amser os oes newidiadau i gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau neu gostau sy'n seiliedig ar gyflog y gellir eu gwneud i leihau unrhyw effaith bosibl ar ddysgwyr.

A ydym yn cael unrhyw arwyddion y bydd galw pellach ar gronfeydd wrth gefn?

Rydyn ni'n meddwl ein bod ni wedi cyrraedd lefel o sicrwydd nawr, ac felly ni ddylai fod. Cawsom rywfaint o hysbysiad hwyr am grantiau gofal cymdeithasol, yr oeddem yn gallu ei roi yn y rhagolwg, ac mae'n rhoi lefel o sicrwydd i ni. Y prif bryder o hyd yw'r sefyllfa gofal cymdeithasol yn symud tuag at ddiwedd y flwyddyn; byddwn yn parhau i edrych ar atal costau ac ystyriaethau gwerth am arian.

A oes unrhyw sgôp ar gyfer mwy o hyblygrwydd o ran y derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir ar gyfer refeniw?

Defnyddiwyd cyfalafu yn helaeth yn y blynyddoedd diwethaf, lle bo'n briodol. Roeddem yn gobeithio ei ddefnyddio'n llawnach, o ran adennill y gyllideb, ond y teimlad yw ein bod y tu hwnt i gwmpas lle y dylem fod o ran ei defnyddio. Rydym mewn cysylltiad cyson â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas y Trysoryddion ar hynny, a chredwn ein bod yn gadarn yn ein dehongliad. Mae'r tabl yn 3.46 yn nodi'r rhagolwg mewn balansau derbyniadau cyfalaf: £3m wedi ei ragamcanu hyd at ddiwedd 26/27, felly rhaid cofio bod y pot o dderbyniadau cyfalaf yn gyfyngedig. Felly, er y gallem edrych ar hyblygrwydd pellach, a mynd at swyddogion ynghylch defnyddiau ychwanegol, rhaid inni gofio eu bod yn rhai unwaith ac am byth, ac mae eu defnyddio at y diben hwn yn cyfyngu ar y gallu i dynnu arnynt at eu diben traddodiadol i gefnogi gwariant cyfalaf a'r rhaglen gyfalaf ehangach. Daw yn ôl i gydbwysedd, ond rydym yn cydnabod yr awgrym i archwilio hyblygrwydd, lle bo modd.

Beth yw'r ganran arferol o'r gyllideb refeniw a ddylai fod yn y cronfeydd wrth gefn? Beth oedd yn 19/20, 20/21?

Nid yw'n gwbl ddefnyddiol cymharu lle'r ydym arni gyda 20/21, oherwydd y cyllid ychwanegol ar gyfer Covid. Rydym yn is na lle yr hoffem fod yn yr meysydd hynny, ar hyn o bryd. Mae siart yn 3.31 yn dangos hanes ein lefelau wrth gefn fel canran o'r gyllideb net dros amser. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng yswiriant cronfa'r Cyngor, gan ein bod wedi ei adael yn draddodiadol rhwng 4 a 6%; hyd yn oed gyda'r flwyddyn gyfredol a'r defnydd a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, mae'n parhau i fod yn 4.9%.

O ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, rhaid i ni gofio eu bod ar gyfer defnydd penodol ac wedi'u sefydlu i gwmpasu rhai amcanion trawsnewidiol a risgiau penodol megis yswiriant, risg trysorlys, diswyddiadau, ac ati. Byddem yn disgwyl lefel o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn dros amser ar gyfer i'w defnyddio at y dibenion penodol hynny e.e. os byddwn yn buddsoddi mewn trawsnewid gwasanaethau, byddwn yn galw ar y cronfeydd wrth gefn i ysgogi arbedion effeithlonrwydd a lleihau costau hirdymor.

O ystyried y gorwariant ar Ofal Cymdeithasol, beth yw'r rhagolygon realistig o droi trywydd cynyddol y costau hynny i un sy'n eu gweld yn dod i lawr?

Gan ein bod yn trafod Mis 9 heddiw, ni fyddem yn mynd i mewn i'r gyllideb gyffredinol ar hyn o bryd.

A allech roi mwy o fanylion am y gostyngiad o £424k yn yr adran Briffyrdd?

Mae'r tanwariant hwnnw o ganlyniad i'r incwm cynyddol yr ydym yn ei gael ar gyfer pethau fel cau ffyrdd a draenio trefol cynaliadwy. Rydym hefyd wedi derbyn grant llifogydd gan Lywodraeth Cymru sy'n talu costau gwasanaethau craidd.

Mae'r gyllideb Hamdden wedi symud drwy'r flwyddyn o £1m i £1.4m i alldro a ragwelir o £1.7m – a ellir egluro hynny ymhellach?

Mae hyn oherwydd y stori gyfarwydd am gostau byw a chostau ynni cynyddol. Mae'r tîm wedi gwneud gwaith rhagorol yn ddiweddar ar hyrwyddo i ddod ag incwm yn ôl i'r safleoedd. Yn ystod y cyfnod penodol hwn, bu ansicrwydd aruthrol ynghylch costau byw ac ynni, a materion ynghylch a fyddai pobl yn parhau â'u haelodaeth. Rydyn ni wedi bod yn ddarbodus yn yr hyn yr ydym wedi'i awgrymu yn ystod y flwyddyn ac rydym yn falch iawn gyda'r cynnydd diweddaraf. Mae ceisio rhagweld niferoedd cwsmeriaid yn y cyfnod hwn wedi bod yn heriol iawn.

Crynodeb y Cadeirydd:

Rydym yn cydnabod bod y rhain yn sefyllfaoedd hynod heriol. Rydym wedi craffu ar yr adroddiad ac yn fodlon ar yr atebion i'r cwestiynau a godwyd.

5. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Rhestr Weithredu.

Nododd y Cynghorydd Chandler nad oes unrhyw alldro cyllideb Mis 11 na Diwedd Blwyddyn ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gan ofyn pryd y byddant yn dod i'r Pwyllgor. Bydd Jonathan Davies yn gwirio hyn gyda'r Gwasanaethau Democrataidd ac yn diweddarau'r aelodau – **CAM GWEITHREDU**

6. Cynllunyydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet

7. I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

Cyfarfod Cyffredin - Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg - 17eg Ionawr 2023.

Cadarnhawyd ac arwyddwyd y cofnodion fel cofnod cywir, ond nododd y Cadeirydd gywiriad: mae'r datganiad bod nifer o Gynghorau ar draws y wlad yn fethdalwyr oherwydd yr argyfwng economaidd presennol yn anghywir – mae un Cyngor yn fethdalwr ond mae hynny oherwydd buddsoddiadau hirdymor gwael. Roedd y Cadeirydd wedi atgoffa Aelodau'r Cabinet a swyddogion na ddylai materion o'r fath gael eu camliwio, ac ni ddylid cam-hysbysu aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd.

Cyfarfod Arbennig - Y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg - 25ain Ionawr 2023.

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'u harwyddwyd fel cofnod cywir.

8. Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 27ain Ebrill 2023 am 10.00am.